Mantell

NEWYDDLEN MUDIADAU GWIRFODDOL GWYNEDD

Rhifyn 34
Medi 2006

CYNNWYS

Newyddion 2

Biwro Gwirfoddolwyr Gwynedd 4

Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llês 5

Digwyddiadau a Hyfforddiant 6

Grantiau 7

Gwybodaeth Cyffredinol 8

Planning FOR REAL

Fel grwp cymunedol neu wirfoddol a ydych chi wedi clywed am y dull ymgynghoriad a elwir yn 'Planning for Real'?

Mae Partneriaeth Cymunedau'n Gyntaf Talysarn a Nantlle wedi bod yn cynllunio i gynnal y math yma o weithgaredd ers rhai misoedd a thros fisoedd yr Hydref fe fydd yr ymgynghoriad yn cymryd lle.

Dechreuodd y broses yn ôl ym mis Mawrth pan aeth nifer o aelodau'r bartneriaeth ar gwrs i ddysgu sut i gynnal ymgynghoriad yn defnyddio dulliau 'Planning for Real. Crëwyd tri is-grwp i drefnu'r ymgynghoriad ac maent wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd, ac yn ateb yn ôl i Banel Llywio. Y cam cyntaf oedd adeiladu model o ardal yr ymgynghoriad i raddfa 1:500, sef pentrefi Talysarn a Nantlle. Roedd hyn yn cael ei wneud gan blant yr ysgolion cynradd lleol. Yn ogystal â hyn roedd angen cyfieithu nifer o'r deunydd a dderbyniwyd gan 'Planning for Real' ar gyfer yr ymgynghoriad.

Yn ystod yr ail gam gwelwyd trigolion Talysarn a Nantlle yn gwneud eu rhan. Gosodwyd y model i fyny, a chafodd y trigolion y cyfle i leisio eu barn a gwneud argymhellion h.y. pa welliannau yr hoffent eu gweld yn eu cymuned. Gwnaed hyn drwy ddefnyddio cardiau bychan â sylwadau arnynt oedd yn cael eu gosod ar y model.

Ar ddiwedd y cyfarfodydd ymgynghori bydd y cardiau yn cael eu didoli dan wahanol benawdau ar gyfer y cam nesaf. Yn ystod y cam nesaf bydd nifer o'r rhai a fynychodd yr ymgynghoriad yn cael eu gwahodd yn ôl i flaenoriaethu'r holl awgrymiadau.

Yn dilyn yr ymgynghori a'r blaenoriaethu, bydd Cynllun Gweithredu yn cael ei greu ar gyfer yr ardal gyfan. Bydd y Cynllun Gweithredu yma yn gosod allan dyheuadau y gymuned gyfan, adnabod materion sydd yn achosi pryderon a blaenoriaethu'r problemau mae'r gymuned yn dymuno mynd i'r afael â hwy.

Felly os ydych chi yn byw yn unai Talysarn neu Nantlle, byddwch yn barod i gymryd rhan. Bydd cyfarfodydd agored yn cael eu cynnal yn yr ardal yn y misoedd nesaf ac os ydych chi eisiau dylanwadu ar unrhyw ddatblygiad, dyma eich cyfle.

Bydd pamffledi yn cael eu dosbarthu o gwmpas y pentrefi yn eich hysbysu o ddyddiad a lleoliad yr ymgynghoriad - gwyliwch allan amdanynt!

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1
EUROPEAN UNION OBJECTIVE 1

RHAN-ARIENNIR Y PROSIECT GAN YR UNDEB EWROPEAIDD
Cronfa Ddatblygu Rhanbarthol Ewropeaidd

Swyddfeydd Mantell Gwynedd

Swyddfa Gofrestredig: 24-26 Stryd Fawr • CAERNARFON • LL55 1RH. ☎ 01286 672626 • 🖷: 01286 678430
Swyddfa Gofrestredig: Yr Hen Orsaf Heddlu • Y Lawnt • DOLGELLAU • LL40 1SB. ☎ 01341 422575 • 🖷: 01341 422147
E-bost: ymholiadau@mantellgwynedd.com • Gwefan: www.mantellgwynedd.com

Elusen Cofrestredig: 1068851 • Cwmni Trwy Warant: 3420271 • Cofrestrwyd yng Nghymru
Cyhoeddir MANTELL gan Mantell Gwynedd. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn Mantell o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Mantell Gwynedd. Cedwir yr hawl i olygu cyn cyhoeddi.

Newyddion

Staff Canolfannau MANTELL GWYNEDD

CAERNARFON

Prif Swyddog: **Bethan Russell Owen**

TÎM GWASANAETHAU

Uwch Swyddog Gwasanaethau Cefnogol: **Meinir Jones**

Swyddog Cymunedau'n Gyntaf: **Carys Williams**

Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol: **Sioned Llwyd Larsen**

Swyddog Gwybodaeth: **Ann Vaughan Jones**

Swyddog Grantiau a Chefnogaeth: **Delyth Vaughan**

TÎM CYLLID A GWEINYDDOL

Rheolydd Cyllid a Gweithrediadau: **Ceren Williams**

Swyddog Gweinyddol: **Bronwen Rowlands**

Cynorthwy-ydd Gweinyddol: **Tracy Lynne Roberts**

TÎM BIWRO GWIRFODDOLWYR

Cydlynydd Gwirfoddolwyr: **Rhianon Jones**

Swyddog Gwirfoddoli: **Iola Till**

DOLGELLAU

TÎM GWASANAETHAU

Swyddog Cymunedau'n Gyntaf: **Mair Huws**

Swyddog Cefnogaeth a Hyfforddiant: **Lindsey Ellis**

TÎM CYLLID A GWEINYDDOL

Cynorthwy-ydd Gweinyddol: **Beryl Norgrove**

TÎM BIWRO GWIRFODDOLWYR

Swyddog Gwirfoddoli: **Ann Angharad Fleming**

Nodyn gan y Prif Swyddog

Croesawu a ffarwelio staff yw ein hanes ym Mantell yn y rhifyn yma. Rydym yn ffarwelio ag Ann Jones oedd wedi bod yn Swyddog Hyfforddiant a Datblygu efo Mantell ers 4 blynedd. Mae Ann wedi ein gadael i ddechrau ar swydd weinyddol efo Cymdeithas Tai Clwyd. Dymunwn yn dda iddi gan ddiolch am yr holl gyfeillgarwch a'i gwaith caled dros y bedair mlynedd ddiwethaf. Diolch a phob dymuniad da i ti Ann. Rydym yn croesawu'n gynnes iawn i'n plith Lindsey Ellis. Mae Lindsey yn hannu o ardal Cerrigydrudion ac yn byw yn Llanuwchlyn erbyn hyn ac wedi bod yn gweithio fel Swyddog Maes i Fenter Iaith Dinbych ers 2004. Fel Ann, bydd Lindsey wedi ei lleoli yn ein swyddfa yn Nolgellau. Croeso at ein teulu bach yma ym Mantell Lindsey a dymunwn yn dda iawn i ti.

Mae'r Gwaith Mapio'r Sector Gwirfoddol y bu cryn sôn amdano dros y misoedd diwethaf bron iawn yn ei ffurf derfynnol erbyn hyn. Rydym yn hynod ddiolchgar i bawb sydd wedi cyfrannu at y gwaith a mawr obeithiwn y byddwn yn barod i'w lansio fis Medi. Ymatebodd bron i 18% i'r holiaduron a anfonwyd allan - ar gyfnod pan mae holiaduron yn cyrraedd ar ein desgiau yn ddyddiol 'roedd yr ymateb yn eithriadol o uchel. Diolch i chi am hynny. Mae'r darganfyddiadau yn ddiddorol a gobeithio y bydd yma sylfaen i Mantell fedru cynllunio'n well ar gyfer cefnogi'r sector yn y dyfodol. Pwrpas y gwaith oedd adnabod cryfderon a gwendidau a chynhyrchu dogfen gynllunio er mwyn sicrhau fod y sector yn cael pob cefnogaeth a chwarae teg posib yn y dyfodol. Un peth sydd yn sicr, mae'r cyd destun polisi yng Nghymru ar hyn o bryd e.e. 'Strategaeth Mentrau Cymdeithasol Cymru 2005', 'Cymru: Gwlad Well' (agenda strategol y Cynulliad,), 'Cymru: Economi Yn Ffynnu' (fframwaith datblygu economaidd Cymru) a 'Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaeth i Gymru' - i gyd yn cydnabod cyfraniad economaidd a chymdeithasol y Sector ac yn gweld rôl amlwg flaenllaw i'r Sector yng Nghymru. Mae hyn i gyd yn argoeli'n bositif i ni.

Mae amser y Cyfarfod Blynyddol wedi cyrraedd eto a byddwn yn cyfarfod wrth droed yr Eifl yn Nant Gwrtheyrn eleni ar Hydref 31ain. Cofiwch fod croeso cynnes i chi ymuno a ni yn y Nant am drafodaeth a sgwrs a phaned. I'r rhai ohonoch sy'n anghyfarwydd a 'r lleoliad, ni allaf ond dweud ei fod yn le hudolus a gobeithio bydd ysbryd Gwrtheyrn yn edrych drosom ac y cawn eich cwmni am gyfarfod gwerth chweil.

Tan Tro Nesa...

Bethan Russell Owen

empower

Mae Empower, Cefnogaeth i'r Sector Gwirfoddol, yn trefnu hyfforddiant a chyngor ar godi arian gan swyddog codi arian proffesiynol ledled Cymru drwy gydol yr Hydref. Rydym yn chwilio am leoliadau cymunedol addas ar gyfer cynnal y digwyddiad. Dyma ein gofynion sylfaenol:

- Lle i hyfforddi hyd at 30 o bobl gyda digon o ystafelloedd i rannu'n grwpiau.
- Mynediad llawn i bobl anabl, mannau parcio a phwynt trydan.
- Lle i ni ddarparu cinio.

Yn unol â'n hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwyedd yn y sector gwirfoddol a chymunedol rydym yn awyddus i dalu ffi deg i grwp cymunedol am gael defnyddio eu lleoliad.

Byddai angen y lleoliad arnom ar gyfer diwrnod llawn ac mae'n debygol y cynhelir y digwyddiad naill ar ddiwrnod gwaith neu ar ddydd Sadwrn.

Os oes gennych leoliad addas, cysylltwch â Bev ar 01874 730067 neu anfonwch e-bost at info@empowersvs.co.uk

dawnsibawb

Mae cyfle gwych i bobl ardal Porthmadog i wneud tipyn o ddawnsio ball-room efo Colleen Dobbins (sydd wedi bod yn gweithio yn Stiwdio Ddawns Fred Astaire yn Seattle) yng Nghanolfan Glaslyn, Porthmadog rhwng 1:00yp a 3:00yp bob dydd Mercher am 6 wythnos yn dechrau ar y 13eg o Fedi. Dawns i Bawb, y cwmni dawns cymunedol, sy'n gyfrifol am y sesiynau ac mae nhw'n addo hwyl a chadw'n heini ar yr un pryd ac yn annog pobl sy'n 50 neu hŷn i ymuno.

Am wybodaeth bellach cysylltwch â Dawns i Bawb, Galeri, Caernarfon ar: **01286 685220** neu e-bost: **post@dawnsibawb.org**

Barnardo's

Mae Gwasanaeth 'Amser Ni' Barnardo's yn chwilio am wirfoddolwyr ar hyd Gwynedd i roi cefnogaeth i blant a phobl anabl a'u teuluoedd i fynychu gweithgareddau hamdden a grwpiau lleol.

Rydym hefyd yn chwilio am gynorthwywyr i'n grŵp Clebran, sy'n cyfarfod yn fisol i alluogi plant a phobl ifanc ag anableddau leisio eu barn am y gwasanaethau maent yn eu derbyn.

Felly os oes gennych chi ychydig o oriau'r wythnos yn rhydd, cysylltwch â Frances Parry yn ein swyddfa yn 14 Stryd Fawr, Caernarfon ar **01286 675847** neu ffoniwch **07810 570616** am fwy o wybodaeth.

Byddwn yn cynnal **Sesiwn Gwybodaeth** yn Siop Barnardo's yng Nghaernarfon ar ddydd **Sadwrn 28ain Hydref** rhwng **11.00 - 3.00.** Bydd yn gyfle i chi ddod draw i gyfarfod â staff a chael mwy o wybodaeth am gyfleoedd gwirfoddoli yng Ngwynedd.

Cyfarfod Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol

Cyfarfu Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol, a sefydlwyd o dan Gynllun Sector Gwirfoddol y Cynulliad, ddydd Llun 12 Mehefin i drafod pynciau sy'n effeithio ar y sector yng Nghymru.

Yn y cyfarfod, hysbysodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, Edwina Hart, y bydd oedi cyn lansio'r Gronfa Datblygu Grwpiau Dan Anfantais, ac y bydd yn destun ymgynghoriad dros yr haf.

Yn y cyfarfod cytunwyd y bydd y Cynulliad yn cydweithio'n agos gyda'r sector i ddatblygu trefniadau i ymgynghori ar y cynllun gweithredu ar dlodi plant. Mabwysiedir polisi 'drws agored' ar gyfer yr ymgynghoriad hwn a bydd y Cynulliad yn gweithio gyda Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru, CGGC ac eraill i gyrraedd cymaint o grwpiau â phosibl sydd â diddordeb.

Cytunwyd ar ddull tebyg ar gyfer gweithio ar adolygiad y Trysorlys o'r trydydd sector, yn dilyn sylwadau gan y sector y gallai'r adolygiad hwn gynnig buddiannau a chyfleoedd i Gymru

Roedd y penderfyniadau pwysig eraill yn cynnwys cytundeb gan y Gweinidog i fwrw ymlaen gyda gwaith ar gyfarfodydd hygyrch. Bydd y Gweinidog hefyd yn cynnal trafodaethau gyda'r Dirprwy Weinidog, Huw Lewis, ar rôl y sector gwirfoddol i weithredu'r cynllun gweithredu ar Orddyled yng Nghymru.

Bydd y cyfarfod nesaf yng Nghaerdydd ar **13 Hydref 2006**. Am gofnodion llawn a rhagor o wybodaeth cysylltwch â: **www.cggc.org.uk** neu **rstafford@wcva.org.u**k

Grŵp Bwyta'n Iach

Mae Canolfan Lôn Abaty yn cychwyn Grŵp Bwyta'n Iach, fydd yn cyfarfod yn fisol i gynnig cefnogaeth i unigolion sy'n dioddef o anhwylder bwyta. Yn ogystal â hyn, gall unigolion, eu teuluoedd a ffrindiau wneud defnydd o wasanaeth llinell gymorth fydd hefyd ar gael. Rydym yn chwilio am Wirfoddolwyr i helpu i redeg y llinell gymorth ynghyd â help yn y cyfarfodydd grŵp.

Lleoliad y grŵp a'r llinell gymorth fydd Canolfan Lôn Abaty, Bangor, ac rydym yn cynnig hyfforddiant llawn a chostau teithio i'n Gwirfoddolwyr.

Os hoffech fwy o fanylion neu ffurflen gofrestru cysylltwch â Biwro Gwirfoddolwyr Gwynedd, yng Nghaernarfon ar **01286 672626**, Meinir yng Nghanolfan Lôn Abaty, Bangor ar **01248 354888** neu Ann yn Medrwn Môn, Llangefni ar **01248 724944**.

SNAP Cymru ydy'r prif wasanaeth Partneriaeth Rhieni yng Nghymru sy'n cynnig gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ymarferol ar bob agwedd sy'n ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol a / neu anableddau a / neu waharddiadau o'r ysgol.

Yr ydym yn cynnig cyrsiau hyfforddiant mewn Cyflwyniad i AAA, Sgiliau T.G Sylfaenol a Sgiliau Llinell Gymorth (drwy nawdd gan y GGE).

Mae SNAP Cymru yn lansio Llinell Gymorth newydd ym mis Medi 2006 yn ddyddiol rhwng 10.00yb a 4.00yp a rhwng 10.00yb ac 8.00yp ar ddyddiau Mercher a lau. Y rhif fydd: **0845 120 37 30**

Yr ydym yn chwilio am wirfoddolwyr i'n helpu i sicrhau fod y datblygiad newydd hwn yn llwyddiannus drwy fod ar gael i ateb galwadau ffôn yn ein swyddfa yn ystod y dydd ac ambell noswaith yn ôl y galw. Cynigir hyfforddiant a chefnogaeth i'n holl wirfoddolwyr.

Am fwy o wybodaeth am y gwasanaeth, hyfforddiant neu gyfleoedd gwirfoddoli cysylltwch â:

SNAP Cymru, Uned 12a, Llys Onnen, Ffordd y Llyn, Parc Menai, Bangor, Gwynedd

Ffôn: 01286 674999
Ffacs: 01286 674998
E-bost: gogledd@snapcymru.org

Grymuso llais plant, pobl ifanc a theuluoedd yng Ngwynedd
CLYWED
Empowering the voice of children, young people and families in Gwynedd

Mae **Gofal Mewn Galar Cruse** yn bwriadu rhedeg cwrs 48 awr unai ym Mangor neu Gaernarfon i ddysgu sgiliau cynghori mewn galar. Bydd y cwrs yn rhedeg yn ystod tymor yr Hydref/Gaeaf. Mae galw mawr am sariadwyr Cymraeg, felly os hoffech chi ddangos diddordeb neu i dderbyn mwy o wybodaeth cysylltwch â Trish ar **08702 402 758** neu ebostio **crusenorthwales@btconnect.com**

Wythnos Gwirfoddolwyr

1af - 7fed Mehefin 2006

Cafwyd wythnos lwyddiannus iawn eto eleni, gyda'r haul yn gwenu bob dydd a chawsom fel tîm **Biwro Gwirfoddolwyr Gwynedd** gyfle i ymweld a gwahanol leoliadau o Fangor i lawr i Dywyn. Roedd yn gyfle i godi ymwybyddiaeth am ein gwaith ynghyd â chyfle i sgwrsio â'r cyhoedd gyda'r nod o annog unigolion i ystyried gwirfoddoli.

Elaine Davies (o'r mudiad O Ddrws i Ddrws) gyda Iola ac Ann (Biwro Gwirfoddolwyr Gwynedd) yn y stondin wybodaeth ar y maes ym Mhwllheli.

Yn ôl yr arfer uchafbwynt yr wythnos oedd y **Te Dathlu a Diolch**, ac eleni treuliodd oddeutu 40 ohonom brynhawn godidog o braf yng Nghraflwyn yn Meddgelert. Ein siaradwr gwadd oedd y Cynghorydd Richard Parry Hughes - Arweinydd Cyngor Gwynedd (a chwarae teg iddo am fynychu a hithau yn ddiwrnod ei benblwydd!!).

Mwynhau'r Te yng Nghraflwyn!

Gorchwyl bleserus a gafodd gan ein bod yn gwobrwyo nifer o wirfoddolwyr - 4 yn derbyn Tystysgrif Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru 2006.

Marianna Sterecka, Eleri Jones a Rhian Ellis gyda Richard Parry Hughes ar ôl derbyn eu Tystysgrifau Cymeradwyaeth Uchel. Yn absennol o'r llun roedd enillydd cenedlaethol sef Tom Jones(o Fangor).

Hefyd, roedd 5 o bobl ifanc yn derbyn gwobrau dan Gynllun Gwirfoddolwyr y Mileniwm.

Nadine Hughes wedi derbyn 'Gwobr Rhagoriaeth' gan Richard Parry Hughes. Yn methu bod yn bresennol roedd Manon Williams.

Jessica Rendell gyda'i Thystysgrif Gwirfoddolwr y Mileniwm. Yn methu bod yn bresennol, ac yn derbyn yr un wobr, roedd David Kyle Owen, ac Eleri Ann Jones.

FFAIR WIRFODDOLI

Digwyddiad Pwysig!

DYDD MERCHER, 25ain HYDREF 2006.

Adeilad Undeb y Myfyrwyr, Prifysgol Cymru Bangor.

11.00yb hyd at 5.00yp

I nodi **Diwrnod Gwneud Gwahaniaeth** (sydd yn cael ei ddathlu yn genedlaethol ar y Sadwrn olaf ym mis Hydref pob blwyddyn), mae Biwro Gwirfoddolwyr Gwynedd yn brysur yn cyd-weithio gyda mudiadau eraill i drefnu Ffair Wirfoddoli.

Bydd hyn yn gyfle ardderchog i fudiadau hyrwyddo eu gwaith yn ogystal â denu gwirfoddolwyr newydd.

Ein bwriad yw cael diwrnod i'w gofio - **bydd croeso cynnes i BAWB.**

Am fwy o fanylion cysylltwch â Biwro Gwirfoddolwyr Gwynedd, 01286 672626 neu 01341 422575

CYFLE I DDANGOS GWERTHFAWROGIAD O GYFRANIAD GWIRFODDOLWYR

Gwobr Gwirfoddoli a Chyfiawnder 2006

Cyfle i chwi enwebu unigolion sydd yn haeddiannol o gydnabyddiaeth am eu hymrwymiad amlwg yn y maes hwn.

Dyddiad cau am enwebiadau: Dydd Gwener, 15fed Medi

Ffurflenni enwebu ar gael gan Kelly Parsons - **01745 588 508**

Gwobr y Frenhines ar gyfer Gwasanaeth Gwirfoddol 2007

Os ydych chi yn gwybod am grŵp o wirfoddolwyr sydd yn rhoi o'u hamser i helpu eraill yn y gymuned ac yn gwella ansawdd bywyd a chyfleoedd i eraill, enwebwch nhw am wobr **cyn 30ain Medi 2006.**

Mae'n hawdd i enwebu !

Ymwelwch â:
www.queensawardvoluntary.gov.uk
neu galwch:
0845 000 2002

Strategaeth Ddrafft ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru dros y ddegawd nesaf - 'Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol'

Ar y 3ydd o Awst 2006, lansiwyd strategaeth ddrafft newydd ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru gan Dr Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Y disgwyliad yw y bydd gwasanaethau mwy cyson o ansawdd da ar gael ar gyfer y rhai sydd mewn angen a gwell cysylltiadau â'r gymuned er mwyn hyrwyddo annibyniaeth a lles.

Am gopi o'r Ddogfen Ymgynghorol hon ewch ar: http://new.wales.gov.uk/news/presreleasearchive/030806cons?lang=cy

Daw'r cyfnod ymgynghorol i ben ar Dachwedd 15, 2006

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach cysylltwch â Jonathan Isaac ar: **029 20801089** neu **Jonathan.Isaac@Wales.gsi.gov.uk**

Rheoliadau Drafft Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Fel rhan o'r maniffesto etholiadol ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn 2003, ymrwymodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i greu comisiynydd Pobl Hŷn yng Nghymru - y bwriad yw penodi Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn ystod 2007.

Bydd y Comisiynydd yn gweithredu'n annibynnol, gan weithio i ddiogelu a hyrwyddo buddiannau pobl hŷn yng Nghymru. Bydd y Comisiynydd yn ffynhonnell o wybodaeth, eiriolaeth a chefnogaeth bobl hŷn a bydd yn annog pobl i fabwysiadu arferion da wrth ymdrin â hwy.

Mae'r Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Rheoliadau (Penodi) Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru' wedi'u cyhoeddi ar ffurf drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

Gellir cael copïau o'r ymgynghoriad drwy ffonio **0292082 3096** neu ewch i **http://new.wales.gov.uk/topics/olderpeople/olderstrategy/?lang=cy**

Dylid anfon eich sylwadau at Ymgynghoriad: Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Y Gyfarwyddiaeth Polisi Pobl Hŷn a Gofal Hirdymor 4, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, CAERDYDD CF10 3NQ neu e-bostiwch **Commissioner.olderpeople@wales.gsi.gov.uk** cyn **Dydd Gwener Hydref 20, 2006.**

Wythnos y Gofalwyr 12-18 Mehefin 2006

Dathlodd Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr Wythnos Y Gofalwyr eleni gyda nifer o ddigwyddiadau llwyddiannus ledled Gwynedd.

Cynhaliwyd dau 'Ddiwrnod i Ofalwyr Ddweud eu Dweud'. Mynychwyd y digwyddiadau hyn gan nifer o ofalwyr ynghyd â chynghorwyr lleol a gweithwyr cymdeithasol.

Cynhaliwyd gweithgareddau eraill hefyd i ofalwyr gan gynnwys boreau coffi (ym Mangor ac yn Nolgellau) a diwrnod ym Metws-y-Coed gyda chyfle i gerdded, siopa a sgwrsio dros ginio.

Drwy garedigrwydd mudiadau eraill roedd yn bosibl i gael arddangosfa yn ffenest swyddfa Mantell Gwynedd yng Nghaernarfon a phresenoldeb ar Ddesg Gwybodaeth WRVS yn Ysbyty Gwynedd drwy'r wythnos. Roedd stondin hefyd ar fore Dydd Gwener yng Nghanolfan Deiniol, Bangor.

Gobeithir bod y rhain wedi helpu i godi proffil y mudiad a gadael i fwy o bobl wybod bod Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr yma i helpu gofalwyr di-dâl.

Fforwm Trais yn y Cartref Gwynedd

Mae Fforwm Trais yn y Cartref Gwynedd, sydd yn rhan o Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd, yn fforwm aml-asiantaethol sydd yn cynnwys yr Heddlu, Cymorth i Ferched, Gwasanaeth Cynnal Dioddefwyr Gwynedd ac Ynys Môn, Gwasanaeth Iechyd, Cymdeithasau Tai, Adran Addysg, Tîm Camddefnyddio Sylweddau ac Alcohol a Chanolfan Lôn Abaty. Prif bwrpas y Fforwm yw codi ymwybyddiaeth am drais yn y cartref, rhannu gwybodaeth ac ymarfer dda, hyfforddi, ymateb i ymgynghoriadau ac ati. Y gobaith yw y bydd dioddefwyr yn fwy parod i ofyn am gymorth a bod cyflawnwyr yn atebol am y gamdriniaeth.

Cynhelir y Fforwm bob dau fis yn Nolgellau ac yng Nghaernarfon. Os hoffech ymuno â'r Fforwm gallech gysylltu ag Anita Myfanwy Cydlynydd Trais yn y Cartref Gwynedd ar 07769912479 neu Meinir Evans, Canolfan Lôn Abaty, ar 01248 354 888 neu meinir@abbeyroadcentre.co.uk

PNI-UK-Cymru

Mae PNI-UK-Cymru yn cefnogi Mamau a'u teuluoedd sy'n delio gydag effeithiau trawmatig salwch amenedigol, boed yn iselder cyngeni, trawma geni, iselder ôl-eni neu orffwylledd ôl-esgor. Rydym wedi ein lleoli yn ardal Gwynedd ac yn ceisio sefydlu rhwydwaith / grŵp o bobl yma.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â **Sherry Sherwin ar 0787543 6387**. Os ydych chi neu rywun rydych yn ei nabod angen cefnogaeth peidiwch oedi â chysylltu.

LANSIO DESG WYBODAETH - YSBYTY GWYNEDD

Bydd y Ddesg Wybodaeth sydd bellach yn weithredol yn Ysbyty Gwynedd yn cael ei lansio yn swyddogol ar **Ddydd Gwener Medi 29 am 2 o'r gloch y prynhawn gan Hywel Williams AS.**

Am fwy o wybodaeth am unrhyw un o'r digwyddiadau/gwybodaeth uchod mae croeso i chi gysylltu â Sioned Larsen ym Mantell Gwynedd ar: 01286 672626 neu sioned@mantellgwynedd.com

Digwyddiadau a Hyfforddiant

Hyfforddiant Mantell i ddod:

MEDI 2006	
21 Medi	**Noson wybodaeth am gronfeydd y Loteri Fawr** 6.30 - 9.00yh - Gwesty'r Celt, Caernarfon
27 Medi	***Adeiladu Tîm*** 10.00yb - 4.00yp - Oriel Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog, Pwllheli
HYDREF 2006	
12 Hydref	**Hyfforddiant Cyfranogiad Gwirioneddol** 10.00yb - 4.00yp - Gwesty'r Heliwr, Porthmadog
TACHWEDD 2006	
7 Tachwedd	**Gweithdy Cyfrifoldebau Swyddogion Mudiadau Gwirfoddol Bach** 7.00 - 9.00yh - Neuadd Ercwlff, Portmeirion

Cymorthfeydd gyda'r Comisiwn Elusennau

Mantell Gwynedd, Caernarfon
TACHWEDD 23ain, 2006

Dyma gyfle prin iawn i gael cyfarfod wyneb yn wyneb â chynrychiolydd o'r Comisiwn Elusennau. Os oes gennych faterion yr hoffech eu trafod gyda hwy, megis:

- Newid amcanion
- Newid mawr i'ch cyfansoddiad
- Gwerthu tir/eiddo
- Gwaddol parhaol
- Masnachu
- Diddymu elusen
- Talu ymddiriedolwyr
- Cyngor am weithgareddau elusennol

Bydd sesiynau byr ar gael trwy'r dydd.

Os hoffech fwy o fanylion am unrhyw un o'r digwyddiadau/hyfforddiant uchod neu os hoffech drafod anghenion eich mudiad o ran hyfforddiant cysylltwch â: **Lindsey Ellis, Swyddog Cefnogaeth a Hyfforddiant, Mantell Gwynedd,Yr Hen Orsaf Heddlu,Y Lawnt, Dolgellau LL40 1SB Ffôn: 01341 422575 neu e-bost: lindsey@mantellgwynedd.co.uk**

Hyfforddiant a Digwyddiadau CGGC

02 Hydref 2006	**Cynhadledd Cyllido Sector Gwirfoddol Cymru** Galeri, Caernarfon

Bydd y gynhadledd hon yn rhoi sylw i amrywiol faterion cyllido amserol sy'n wynebu'r sector wirfoddol yng Nghymru. Bydd yn rhoi cyfle i chi glywed yn uniongyrchol oddi wrth amrywiaeth mawr o gyllidwyr a siaradwyr proffil uchel am faterion cyllido sy'n effeithio arnoch chi.

DIGWYDDIADAU I DDOD YM MAES IECHYD A LLES

Er Lles a Iechyd Gweithwyr y Sector Gwirfoddol

Bydd 2 ddigwyddiad yn cael eu cynnal yn y dyfodol agos gyda'r nod o hyrwyddo iechyd a lles gweithwyr yn y sector gwirfoddol. Gobeithir cynnal un digwyddiad yn ardal Bangor a'r llall yn Nolgellau - bydd mwy o fanylion ar gael yn nes at ar amser.

Cynhadledd Flynyddol Anabledd Dysgu Cymru

Medi 20, 2006 - Gwesty'r Metropole, Llandrindod

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Sarah Hardwidge ar **029 2049 443** neu enquiries@learningdisabilitywales.org.uk

Strategaeth Gofalwyr yng Nghymru - 'Lle Nesa?' - Cynhadledd Rhwydwaith Gweithwyr Cynhalwyr Gofalwyr Cymru

Maes Mawr Hall Hotel, Y Drenewydd, Powys

Dyddiad: Medi 28, 10:00yb - 3:30 yp
Cost: £45 (Statudol) £30 (Sector Wirfoddol)
Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Cynhalwyr Cymru ar: **029 2081 1370** neu ebost: **Pauline@carerswales.org**

DIGWYDDIADAU
CELFYDDYDOL GWYNEDD

DRAMA ● SIOE GERDD ● DAWNS WERIN ● ARDDANGOSFA ● GWEITHDY ● SGWRS ● CYNGERDD ● GIG ● TALWRN ● FFAIR GREFFT ● SIOE FFASIWN…

www.gwynedd.gov.uk/celf

A hoffech hysbysebu eich digwyddiadau celfyddydol yn rhad ac am ddim ar safle we Cyngor Gwynedd?

Estynnir croeso cynnes i chwi yrru manylion unrhyw ddigwyddiad(au) celfyddydol yr ydych yn eu cynnal yng Ngwynedd atom.

Gyrrwch fanylion eich digwyddiad(au) i:
celf@gwynedd.gov.uk
Y Celfyddydau,Y Gyfadran Datblygu, Swyddfa'r Sir, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH
01286 679721

Gwreiddiau Ifanc

Mae Gwreiddiau Ifanc yn raglen grant gymharol newydd gan Gronfa Treftadaeth y Loteri. Gall y gronfa ddarparu grantiau rhwng £5,000 a £25,000 i annog pobl ifanc i archwilio eu treftadaeth. Anogir pobl ifanc rhwng 13-20 oed i gydnabod eu treftadaeth eu hunain a datblygu prosiectau creadigol. Mae'r mathau o brosiectau y gall Gwreiddiau Ifanc eu cefnogi yn eang ac amrywiol.

Rhaid i'r prosiectau gael eu datblygu mewn partneriaeth rhwng sefydliad gwaith ieuenctid a mudiad sy'n ymwneud â threftadaeth. Dylai pobl ifanc fod yn rhan o reoli a chyflawni'r prosiect.

I drafod unrhyw syniadau neu am wybodaeth bellach cysylltwch â:
Stephen Barlow - Swyddog Datblygu, Suite 5a, Cronfa Treftadaeth y Loteri, Plas Guildhall, Caerdydd, CF23 8PT
Rhif Ffôn: 029 2023 4165
E-bost : stephenb@hlf.org.ukee-bost neu ewch i ymweld â'r wefan:
www.hlf.org.uk/youngroots

Gwirfoddoli yng Nghymru 2007/08 WCVA

Grant o hyd at £25,000 ar gyfer mudiadau gwirfoddol am gefnogaeth tuag at recriwtio gwirfoddolwyr newydd a thuag at gostau hyfforddiant er mwyn iddynt allu helpu eu cymunedau. Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn ceisiadau fydd Dydd Gwener, 29 Medi 2006 a bydd y ceisiadau llwyddiannus yn mis Ionawr 2007 ar gyfer prosiectau i ddechrau Ebrill 2007.

Os am fwy o wybodaeth cysylltwch â Mark Bendon ar 029 2043 1749 neu ewch ar wefan WCVA - www.wcva.org.uk

Cronfa Galluogi Gwynedd

Nodyn i'ch atogffa o'r dyddiadau cau sy'n weddill i Cronfa Galluogi Gwynedd am 2006/07

Rownd 2 - Medi 30ain, 2006
Rownd 3 - Rhagfyr 31ain, 2006

Cronfa Risg Gymdeithasol - WCVA

Mae'r Gronfa Risg Gymdeithasol yn cynnig hyd at £10,000 i fudiadau gwirfoddol ar gyfer prosiectau newydd ac arloesol sy'n anelu at roi sgiliau newydd i bobl, adfywio cymunedau lleol ac atal eithrio cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r gwelliannau canlynol wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar i'r gronfa:

- Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau tan diwedd Mawrth 2007
- Terfyn incwm ymgeiswyr wedi codi i £150k (incwm refeniw yn unig)
- Band oed buddiolwyr 14-64 oed
- Amcan 1 - Caniateir cyfanswm o 3 chais yn awr
- Amcan 3 - Caniateir cyfanswm o 2 gais yn awr

Mae CRG yn caniatáu grantiau 100% hyd at uchafswm o £10k i brosiectau addas, gan ymateb i geisiadau o fewn 30 diwrnod gwaith. Bydd ymgeiswyr yn derbyn arweiniad a chefnogaeth gydol y broses gan Ymgynghorydd.

Os am ragor o wybodaeth am y gronfa neu syniad am brosiect cysylltwch â Ymgynghorydd Gogledd Cymru - Aaron Walters. Ffôn: 07841 603 662 neu E-bost: awalters@wcva.org.uk

CRIMEBEAT *GWYNEDD*

'Crimebeat' yw elusen yr Uchel-Siryfion yng Nghymru a Lloegr. Lansiwyd hi yng Ngogledd Cymru yn 2002 gan Uchel-Siryfion Clwyd a Gwynedd, a chefnogir y fenter gan Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned (PACT) i helpu pobl ifanc i ddatblygu prosiectau a fydd yn gwneud eu cymuned yn lle mwy diogel i fyw ynddo.

Ein hamcanion yw:

- Gostwng trosedd yn lleol a chadw pobl ifanc allan o drybini
- Rhoi cymorth a chefnogaeth i ddioddefwyr trosedd
- Sbarduno diddordeb mewn gwaith gwirfoddol
- Helpu i gryfhau cymunedau lleol
- Gwella ymddygiad a phresenoldeb yn yr ysgol
- Gwella ansawdd bywyd

Rydym wedi rhoi cymorth i nifer o grwpiau pobl ifanc yng Ngwynedd, yn cynnwys pobl ifanc yn cymryd rhan yn Cricieth yn ei Blodau, disgyblion o Ysgol Dyffryn Nantlle a oedd wedi cynhyrchu ffilm DVD am yfed dan oed, a Ffermwyr Ifanc Meirionnydd sydd wedi rhedeg cynlluniau nodi cerbydau a menter Gwarchod *Ffermydd.*

Os oes gennych chi syniad da fyddai'n cwrdd â'r amcanion yna cysylltwch â Chydlynydd Crimebeat Gwynedd, Dave Evans ar ***01745 588516*** *neu e-bostiwch* ***David.V.Evans@nthwales.pnn.police.uk***

CRONFA'R DEGWM
Cymorth i Elusennau Cofrestredig yng Ngwynedd

Pwrpas y Gronfa yw hyrwyddo gweithgareddau sefydliadau elusennol sydd o fudd i drigolion Gwynedd ac yn cyfoethogi cymunedau'r Sir.

Mae gan eisteddfodau lleol sydd wedi eu cofrestru fel elusen yr hawl i dderbyn swm o £250 yn flynyddol tuag at gostau unrhyw eisteddfod a gynhelir o fewn y Sir.

Mae cyfanswm o tua £19,000 arall ar gael i'w ddosbarthu i elusennau eraill yng Ngwynedd bob blwyddyn trwy Gronfa'r Degwm, ac mae grantiau unigol yn tueddu i fod rywle rhwng £100 ac uchafswm o £3,000 mewn amgylchiadau arbennig iawn.

Cynhelir y cyfarfod yn chwarterol, gyda'r nesaf ar y 19eg Rhagfyr, 2006. Rhaid i geisiadau ddod i law o leiaf bedair wythnos cyn hynny, sef 21ain Tachwedd, 2006.

Am ragor o wybodaeth am Gronfa'r Degwm, cysylltwch ag Eirian Roberts ar (01286) 679018 neu e-bostiwch: maireirianroberts@gwynedd.gov.uk.

Cymunedau'n Gyntaf

Bu ail gyfarfod Rhwydwaith Partneriaethau Cymunedau'n Gyntaf Gwynedd yn Theatr y Ddraig, y Bermo nos lau 6ed Orffennaf 2006. Cafwyd trafodaeth frwd iawn yn ystod y cyfarfod, a'r farn ar ddiwedd y noson oedd bod pawb wedi elwa o'r cyfle i gyfarfod ynghyd â thrin a thrafod gwahanol agweddau o'u Partneriaethau.

Diolch i Bartneriaeth Y Bermo am y croeso cynnes a'r barbiciw blasus.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ym mis Hydref ym Mlaenau Ffestiniog.

Cronfa Ymddiriedolaeth Cerddoriaeth Cymunedau'n Gyntaf

Cronfa peilot newydd am flwyddyn gwerth £180,000 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo gweithgareddau cerddorol yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf.

Bydd modd i fudiadau gwirfoddol a chymunedol wneud cais am arian ychwanegol i gefnogi gweithgareddau cerddorol all-gwricwlar ym mhob un o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yng Nghymru.

Bydd grantiau yn agored i bob math o weithgareddau cerddorol o fewn Ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf – popeth o gorau clausrol i fandiau roc, o jazz i ddrymio Affricanaidd neu gerddoriaeth samba. Bydd yr arian ar gael i gefnogi ystod o weithgareddau, gan gynnwys prynu offerynnau, llogi ystafelloedd i ymarfer neu gynnal cyngerdd, costau teithio, costau hyfforddi neu gostau cynnal cyngherddau a gwyliau cymunedol.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau 2006/07 yw 31 Hydref 2006 a 31 Ionawr 2007.Am fwy o wybodaeth ewch i wefan www.comunitiesfirst.info

Grantiau i fudiadau ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf...

Mae hyd at £5000 ar gael o Gronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau'n Gyntaf i grwpiau gwirfoddol sy'n gweithio o fewn wardiau Bermo; Bowydd a Rhiw (Blaenau Ffestiniog); De Pwllheli; Marchog (Maesgeirchen, Bangor); Peblig (Caernarfon); Penllŷn (wardiau Aberdaron, Botwnnog a Thudweiliog); Talysarn a Nantlle.

Anelir y Gronfa at fudiadau bychain. **Gwnewch gais yn fuan! Mae'r dyddiad cau Ionawr 31, 2007.**

Cyswllt: **www.communitiesfirst.info** neu ffonio **0800 587 8898**. I gael cymorth pellach cysylltwch â Swyddogion Cefnogi Cymunedau'n Gyntaf Mantell Gwynedd: Carys Williams, swyddfa Caernarfon - **carys@mantellgwynedd.com** neu **01286 672626** neu Mair Huws yn swyddfa Dolgellau - **mair@mantellgwynedd.co.uk** neu **01341 422575**

Gwybodaeth Cyffredinol

Dewch i fynegi barn a thrafod y pethau sy'n bwysig i chi yn

Fforwm Gwynedd!

Gwynedd AR Y CYD – TOGETHER

Cewch wybod mwy am waith partneriaeth Gwynedd ar y Cyd ar bethau fel:

Tai fforddiadwy a Bwydlenni Iach Mewn Ysgolion...

...a rhoi eich barn ar y pethau y dylem ni fod yn canolbwyntio arnynt yng Ngwynedd.

Nos Fercher, Medi 27, 6.00 – 9.00yh

Ysgol Eifion Wyn, Porthmadog. Bydd lluniaeth ar gael!

Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch â Swyddfa Gwynedd ar y Cyd ar: **01286 679965**

e-bost: gwyneddarycyd@gwynedd.gov.uk

Cwmni Bwyd Cydweithredol

Mae grŵp bwyd cydweithredol yn cyflenwi bwyd fforddiadwy, llysiau a ffrwythau o ansawdd da, gan ffynonellau lleol – ble mae'n bosibl.

Wedi ei ariannau gan y Cynulliad, bydd yr Uned Adfywio Gwledig yn helpu cymunedau dros Ogledd Cymru i ddod at ei gilydd â ffermwyr, cynhyrchwyr lleol, defnyddwyr, busnesau lleol, gwasanaethau iechyd a'r amgylchedd.

Bydd bwyd ffres, blasus ac iach (wedi ei dyfu a'i fwyta'n lleol) o fudd i ffermwyr, cynhyrchwyr lleol, defnyddwyr, busnesau lleol, gwasanaethau iechyd a'r amgylchedd.

Am fwy o wybodaeth neu i drefnu sgwrs anffurfiol, cysylltwch â: **June Jones, Gweithiwr Datblygu Bwyd ar: 01766 890 637**

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn gwybodaeth i rifyn nesaf o Mantell yw **10ed Tachwedd, 2006**. Danfonwch neu e-bostiwch unrhyw wybodaeth at Beryl Norgrove yn swyddfa Dolgellau:

beryl@mantellgwynedd.co.uk.

Ffôn: 01341 422575